

GRUFFYDD ap RHYS (bu farw 1201), tywysog Deheubarth

Enw: Gruffydd ap Rhys
Dyddiad marw: 1201
Priod: Matilda Braose
Plentyn: Owain ap Gruffydd
Plentyn: Rhys Ieuanc
Rhiant: Gwenllïan ferch Madog ap Maredudd
Rhiant: Rhys ap Gruffydd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tywysog Deheubarth
Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

mab hynaf [Rhys ap Gruffydd](#) a Gwenllïan, merch [Madog ap Maredudd](#). Fel sylfaenydd llinach hynaf disgynyddion yr [Arglwydd Rhys](#) efe a nodid yn etifedd tiroedd pennaf ei dad yn Ystrad Tywi a chydnyddid ef fel hynny gan yr awdurdodau Seisnig. Ar y cyfan rhoddwyd cyfeiriad i brif ddigwyddiadau ei yrfa fer gan uchelgeisiau ei wrthwynebwyr - ei frawd [Maelgwn](#) a [Gwenwynwyn](#) o Bowys; o'r herwydd, ansicr hyd y diwedd oedd ei afael ar ei etifeddiaeth. Mewn un ystyr gellir edrych ar ei yrfa fel math o ragarweiniad i'r cwerylon teuluol dinistriol hynny a arweiniodd i gwmp terfynol teulu Dinefwr. Yn 1189 priododd Matilda, merch [William de Breos](#), a'i goroesodd, gyda dau fab ieuanc, Rhys Ieuanc ac [Owain](#), pan fu farw ar 25 Gorffennaf 1201. Claddwyd ef a Matilda yn Ystrad Fflur.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Gruffudd ap Rhys II](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2253212](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

